**Asesiad Traweffaith Economaidd – Crynodeb Gweithredol**

Mae gwaith adeiladu'r datblygiad arfaethedig wedi'i alinio gydag amcanion datblygiad economaidd a chynllunio llywodraeth ganolog a llywodraeth leol niferus.

Gallai helpu'n uniongyrchol i hwyluso ehangiad sectorau gwerth uchel, cynhyrchiant uchel, creu swyddi a buddsoddiad a chyd-fynd ag ymdrechion i gefnogi a darparu cyfleoedd i sectorau a diwydiannau eraill sy'n ychwanegu gwerth. Gallai chwarae rhan allweddol o fewn datblygiad parhaus ac amrywiaeth economi Ynys Môn.

## 1.1. Cymdeithasol

Bydd y datblygiad arfaethedig, Parc Ffyniant, yn helpu i wyrdroi'r duedd o ddiwydiant yn dirywio ar Ynys Môn a helpu i ddarparu seilwaith ar gyfer datblygiadau diwydiannol eraill megis ynni gwynt a'r porthladd rhydd yng Nghaergybi. Bydd hefyd yn creu isafswm o 1,151 o swyddi yn flynyddol unwaith y bydd wedi'i sefydlu ac yn gweithredu'n llawn, gan greu buddion ehangach i'r gadwyn gyflenwi a thrwy wariant gweithwyr. Mae'r buddion hyn yn cael eu cydnabod fel buddion anuniongyrchol a buddion a ysgogir ac yn darparu cyfanswm o 1,219 FTE o rolau yn y fro. Yn yr achos uchel, disgwylir i'r safle hwyluso greu 2.228 FTE o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol a swyddi a ysgogir.

## 1.2. Economaidd

Bydd y datblygiad yn darparu traweffeithiau net untro a pharhaus fel ei gilydd:

Gwaith Adeiladu (traweffaith untro[1]) Ynys Môn

- Buddsoddiad +£1.0Bn
- GVA Net +£60.1M uniongyrchol, anuniongyrchol, ac wedi'i ysgogi
- Cyflogaeth +890 FTE blwyddyn uniongyrchol, anuniongyrchol, ac wedi'i ysgogi

Gweithrediadau ar y safle (traweffaith blynyddol, parhaus[2]) Ynys Môn – cyflogaeth isel

- Allbwn +£153M
- GVA Net +£274M uniongyrchol, anuniongyrchol, ac wedi'i ysgogi
- Cyflogaeth +1,219 FTE uniongyrchol, anuniongyrchol, ac wedi'i ysgogi

[1] Mae budd economaidd untro yn cyfeirio at fudd ariannol neu economaidd unigol sydd heb fod yn cael ei ailadrodd ac sy'n cael ei greu gan ddigwyddiad, gweithgaredd neu brosiect penodol. Yn wahanol i fuddion economaidd parhaus nid yw buddion untro ond yn digwydd un waith ac nid ydynt yn darparu gwerth parhaus dros amser. Gyda gweithgarwch adeiladu, mae'r traweffeithiau economaidd, gan gynnwys cyflogaeth, enillion a GVA yn gyfyngedig i waith adeiladu arwahanol.

[2] Mae traweffaith economaidd parhaus yn cyfeirio at fuddion ariannol neu economaidd parhaus a chylchol sy'n cael eu creu gan weithgaredd, digwyddiad, prosiect neu fuddsoddiad dros amser. Yn wahanol i fuddion economaidd untro, mae traweffeithiau parhaus yn cyfrannu at dwf economaidd, cyflogaeth ac incwm cynaledig o fewn cymuned, rhanbarth neu economi.

Gweithrediadau ar y safle (traweffaith blynyddol parhaus) Ynys Môn – cyflogaeth uchel

- Allbwn +£408M
- GVA Net +£274M uniongyrchol, anuniongyrchol, ac wedi'i ysgogi
- Cyflogaeth +2,228 FTE uniongyrchol, anuniongyrchol, ac wedi'i ysgogi

Mae'r datblygiad hwn yn rhan gyfansoddol o'r gwaith adfywio ac ailddatblygu y rhagwelir y bydd yn digwydd ar Ynys Môn yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod a gall ddarparu traweffeithiau economaidd cadarnhaol.

Mae'r sgiliau, hyfforddiant a mentrau addysg lleol sy'n datblygu o'r Porthladd Rhydd ehangach yn debygol o fod yn uniongyrchol berthnasol ac yn cyd-fynd gyda mesurau cyflogaeth sy'n benodol i safle a sgiliau a allai gael eu diogelu drwy'r broses gynllunio.

## 1.3. Crynodeb traweffeithiau economaidd

Gwaith Adeiladu - traweffeithiau untro

| (£M) | Ynys Môn | Cymru (gan gynnwys Ynys Môn) | DU (gan gynnwys Cymru) |
|---|---|---|---|
| GVA Net | 60.1 | 738.7 | 1129.1 |
| Enillion Net | 26.5 | 333.3 | 516.4 |
| FTEau Net | 890 | 10.978 | 15.680 |

Traweffeithiau net blynyddol parhaus – cyflogaeth isel

| (£M) | Ynys Môn | Cymru (gan gynnwys Ynys Môn) | DU (gan gynnwys Cymru) |
|---|---|---|---|
| GVA Net | 109 | 55 | 75 |
| Enillion Net | 53 | 29 | 38 |
| FTEau Net | 1.219 | 481 | 677 |

Traweffeithiau net blynyddol parhaus – cyflogaeth uchel

| (£M) | Ynys Môn | Cymru (gan gynnwys Ynys Môn) | DU (gan gynnwys Cymru) |
|---|---|---|---|
| GVA Net | 274 | 263 | 358 |
| Enillion Net | 135 | 136 | 180 |
| FTEau Net | 2.228 | 2.283 | 3.212 |

Er eglurder - mae'r gwerthoedd net a ddangosir yn cynnwys y buddion a gofnodwyd ar lefelau gofodol llai. Mae'r canlyniadau yr adroddwyd arnynt yn ffwythiant o'r traweffeithiau gros sy'n gysylltiedig gyda gweithgareddau yn y Parc Ffyniant ac maent yn cydnabod lefelau cynyddol o golled a dadleoli ar lefelau Cymru a'r DU.

Ym mhob achos, mae'r gwerthoedd a ddangosir yn enillion sy'n gysylltiedig gyda Pharc Ffyniant dros y status quo.